**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2024 am 4.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| A Davis | E W Fitzgerald | V A Holland |
| M Jones | W G Lewis | P N May |
| F D O'Brien | S Pritchard | T M White |

**Aelod(au) Cyfetholedig Statudol**
Elizabeth Lee

**Cynghorwyr sy'n Aelod(au) Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| C A Holley | S M Jones | P Hood-Williams |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Samantha Jenkins | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Sarah Lackenby | Pennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd Elliott King – Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hawliau Dynol Chydraddoldeb
Y Cynghorydd R V Smith - Aelod y Cabinet Dros Addysg a Dysgu
Y Cynghorydd A S Lewis - Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Aelod(au) Cyfetholedig Statudol: Beth Allender
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: L R Jones

---

## 85 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd M Jones – Personol – Cofnod 89 - Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23.

## 86 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 87 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Arbennig y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2024 a Phwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2024 a'u llofnodi fel cofnodion cywir.

## 88 Cwestiynau gan y cyhoedd

Dim.

## 89 Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022/23

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb ac Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu Adroddiad Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg 2022-2023. Roedd yr adroddiad yn darparu crynodeb o'r gweithgareddau sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg o fewn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023; gan gynnwys prosiectau a gweithgareddau newydd yn ystod y flwyddyn.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb fod dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru ers 30 Mawrth 2016 i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011) a chyda Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan y Mesur drwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoleiddio'r Gymraeg), y cyfeirir atynt yn gyffredin fel y 'Safonau'.

Nodwyd bod gofyn i Gyngor Abertawe gydymffurfio â 163 o safonau ar draws 5 categori. Mae safonau 158, 164 a 170 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio adroddiad blynyddol sy'n manylu ar sut y mae wedi cydymffurfio â'r safonau.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Arwyddion - Dywedodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb mai gofynion y Gymraeg oedd, pan fyddwn yn codi arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), fod yn rhaid i unrhyw destun ac sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei harddangos yn y Gymraeg hefyd. Felly, mae'n bosib nad yw rhai arwyddion hŷn sy'n dal i fod yn eu lle yn ddwyieithog, ond byddai angen iddynt fod pan fydd rhai newydd yn

cael eu gosod yn eu lle yn y dyfodol. Codwyd ymholiad penodol ynghylch arwyddion mewn parciau ac o'u hamgylch, a lleoliad penodol yr ymrwymodd Aelod y Cabinet i fynd ar ei drywydd gydag un o Aelodau'r Pwyllgor.

- Y Gwasanaeth Cyfieithu – yn dilyn mater a godwyd wrth drafod adroddiad y llynedd, manylodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu'r gymhariaeth gost rhwng y Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg mewnol a gwasanaethau cyfieithu allanol. Er bod darparu cyfieithwyr allanol, neu wasanaeth cyfieithu allanol yn llawer mwy cost-effeithiol y flwyddyn, roedd rhesymau pam y byddai'n gwasanaeth cyfieithu mewnol yn cael ei ffafrio. Cyfeiriodd at welliannau sy'n cael eu gwneud/eu harchwilio i wella effeithlonrwydd a chost effeithiolrwydd y gwasanaeth.
- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau – amlygodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb y camau a gymerwyd i gyflwyno prosesau awtomataidd newydd i wella'r gwasanaeth er mwyn i ddefnyddwyr gael mynediad at wasanaethau'n ddwyieithog.
- Cyfieithu ar y pryd – cafwyd ymholiad ynghylch cyfeiriad yn yr adroddiad at gaffael trwyddedau Zoom i hwyluswyr er mwyn galluogi cyfieithu ar y pryd. Gan fod y Cyngor yn defnyddio MS Teams yn gorfforaethol, y mae ganddo nodweddion ar gyfer cyfieithu, gofynnwyd i Aelodau'r Cabinet pam fod hyn yn angenrheidiol. Byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.
- Cwynion am y Gymraeg - roedd rhywfaint o bryder am ymateb y Cyngor i rai o'r cwynion a dderbyniwyd, e.e. yn datgan na chymerwyd unrhyw gamau. Dywedodd Aelodau'r Cabinet y bydden nhw'n edrych ar hyn ar ôl y cyfarfod ac yn ymateb.
- Yr Uned Gyfieithu - dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol fod trefniant cytundebol ffurfiol yn bodoli mewn perthynas â'r gwasanaeth ar y cyd â Chyngor Castell-nedd Port Talbot, ac yr ailgodir costau ar Gastell-nedd Port Talbot yn seiliedig ar ddefnydd.
- Gwelededd yr Adroddiad Blynyddol – er ei fod ar gael ar-lein awgrymwyd y byddai'n beth cadarnhaol pe bai copi caled o'r Adroddiad Blynyddol ar gael mewn Llyfrgelloedd. Byddai Aelodau'r Cabinet yn egluro a yw hyn eisoes yn wir ac yn ymateb.
- Addysg Cyfrwng Cymraeg – Gofynnwyd i Aelodau'r Cabinet pa drefniadau ddylai fod ar waith ar gyfer darpariaeth cyfieithu ar gyfer Cyfarfodydd Llywodraethwyr Ysgolion mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg, ac a oedd ysgolion unigol yn gyfrifol am y gost. Dywedodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu y byddai ymateb yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor ynghylch disgwyliadau a threfniadau, gan gynnwys cyllid.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb , Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu a'r Prif Swyddog Cyfreithiol am eu mewnbwn.

**Penderfynwyd** y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Hawliau Dynol a Chydraddoldeb ac Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu i adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y Pwyllgor.

**90 Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Blynyddol 2022-23**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau yr Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Blynyddol ar gyfer 2022.

Nodwyd bod y ddau adroddiad yn atodiadau A a B yn manylu ar berfformiad o ran gweithrediad y Polisi Cwynion Corfforaethol a Pholisi Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Roedd fformat newydd i'r adroddiadau cwynion mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyflwynwyd yr Adroddiadau Blynyddol hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan fod ganddo gyfrifoldeb i ystyried gallu'r Awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol, felly rhoddwyd sicrwydd iddo ar y broses o ymdrin â chwynion.

Amlygwyd i'r Pwyllgor fod nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor yn ganran fach iawn o'r nifer helaeth o ryngweithiadau â dinasyddion bob blwyddyn. Fodd bynnag, dywedodd yr adroddiad fod y Cyngor yn cydnabod bod cwynion yn adnodd gwerthfawr sy'n helpu'r Cyngor i ddeall anghenion a phryderon aelodau'r cyhoedd ac i wella gwasanaethau. Cymerir pob cwyn o ddifri ac maent yn darparu mewnwelediad gwerthfawr i gwsmeriaid. Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y sylwadau cadarnhaol a gafodd y Cyngor.

Nodwyd hefyd fod archwiliad mewnol o Gwynion wedi dechrau ar ddiwedd 2022-23 a daeth i ben yn 2023-24 y rhoddwyd lefel sicrwydd gymedrol ar ei gyfer.

Nododd y Pwyllgor fod Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei ystyried gan Baneli Perfformiad Craffu y Gwasanaethau Cymdeithasol ar 12 Mawrth.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Dadansoddiad o Gwynion – cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau at nifer y cwynion nad oeddent wedi'u cadarnhau, a allai fod ymhlith rhesymau eraill oherwydd materion neu amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, e.e. llifogydd, neu gwynion yn erbyn tocynnau parcio a oedd yn destun proses wahanol.
- Achosion yr Ombwdsmon - dywedodd yr adroddiad fod yr Ombwdsmon wedi derbyn 94 o gwynion yn 2022-23 ond ei fod wedi cau 99 achos yn ymwneud â'r Cyngor. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid fod yr anghysondeb yn y ffigurau hyn yn ymwneud â rhai achosion yr Ombwdsmon sy'n dal i gael eu hystyried o flynyddoedd blaenorol.
- Amserlenni Adrodd – dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau y byddai adroddiadau blynyddol ar Gwynion a Chanmoliaeth ar gael yn gynharach. Fodd bynnag, mae'n cymryd sawl mis i grynhoi gwybodaeth ond byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i lunio'r adroddiad nesaf cyn gynted â phosib ar ôl derbyn Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ym mis Medi / Hydref.
- Proses ar gyfer Cofrestru Cwynion a Chanmoliaeth – Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid y broses, gyda'r rhan fwyaf o gwynion yn

cael eu gwneud ar-lein, fodd bynnag roedd dulliau eraill ac, mewn adroddiadau yn y dyfodol, gellid manylu ar ffigurau ynghylch y ffynhonnell gofrestru, e.e. p'un ai ar-lein, drwy e-bost, llythyr, etc. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch cofnodi canmoliaethau, er mwyn sicrhau na chollir sylwadau cadarnhaol a dderbynnir gan y cyhoedd.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet  dros Drawsnewid Gwasanaethau a Phennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid am eu mewnbwn.

**Penderfynwyd** y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Phennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid i adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y Pwyllgor.

## 91 Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Addysg (y Cynghorydd Lyndon Jones, Cynullydd).

Rhoddodd y Cynghorydd Lyndon Jones adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor ar waith/weithgareddau'r Panel Craffu Perfformiad Addysg.

Yn absenoldeb y Cynullydd, rhannodd y Cadeirydd rai sylwadau a wnaed gan y Cynullydd mewn perthynas â Phartneriaeth Ranbarthol *Partneriaeth* gan y bu cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru yn cynnig adolygiad o drefniadau partneriaethau addysg. Roedd peth pryder ynghylch goblygiadau adolygiad o'r fath ar *Partneriaeth* ac ar gynghorau unigol yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** nodi Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad:  Addysg.

## 92 Aelodaeth Paneli Craffu a Gweithgorau.

Nid oedd unrhyw newidiadau i adrodd amdanynt.

## 93 Rhaglen Waith Craffu

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad arferol ar y Rhaglen Waith Craffu ar gyfer 2023/24 y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ei monitro.

Cadarnhaodd fod y brif eitem ar gyfer y Pwyllgor nesaf ar 16 Ebrill yn cynnwys:

- Sesiwn Craffu ar Drosedd ac Anhrefn - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel.

## 94 Llythyrau Craffu

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y llythyrau canlynol, gan fyfyrio ar weithgarwch craffu diweddar y Pwyllgor:

- Pwyllgor – Galw Penderfyniad y Cabinet i Mewn – Fframwaith Siarter Cwsmeriaid a Safonau Gwasanaeth - Llythyr at / oddi wrth Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau (Dirprwy Arweinydd).
- Pwyllgor – Craffu ar Strategaeth y Gweithlu - Llythyr at Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol (Dirprwy Arweinydd).

## 95 Dyddiad ac amser cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfodydd Panel/Gweithgor/Craffu Rhanbarthol sydd ar ddod, ar gyfer ymwybyddiaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.33 pm

**Cadeirydd**